



Themau - Themes

dy / fy - yours / my

Patrymau Iaith - Language patterns

Mae treigladau trwynol ar ôl 'fy'.

There is a nasal mutation after 'fy'.

Fy mrawd i
Fy ngwraig i

*My brother
My wife*

Mae treigladau meddal ar ôl 'dy' (anffurfiol) ac 'ei' (gwrywaidd).

There is a soft mutation after 'dy' (informal) and 'ei' (masculine).

Dy frawd di
Dy fam di

*Your brother
Your mother*

Ei wraig e
Ei frawd e

*His wife
His brother*

Mae treigladau llaes ar ôl 'ei' (benywaidd) + h cyn llafariad

There is an aspirate mutation after 'ei' (feminine) + h with a vowel.

Ei thad hi
Ei henw hi

*Her father
Her name*

Does dim treigladau ar ôl 'ein', 'eich' 'eu'

There isn't a mutation after 'ein/our', 'eich/you', 'eu/their'.

Ein teulu ni
Eich mam-gu chi
Eu cartref nhw

*Our family
Your grandmother
Their home*

Tasgau - Tasks

Tasg sain / Audio task

Llenwch y blychau.

Fill in the gaps.

Elen: Huw yw fy _____ i.
Rhodri yw fy _____ i.
Gwenan yw fy _____ i.
Gwenan ac Ela oedd fy _____ i.
Bydd fy _____ i yn Radur.
Bydd fy _____ i yn Ysgol Gynradd Coed y Gof.

Rhodri: Elen yw fy _____ i .
Ella yw fy _____ i.
Stuart yw fy _____ .

Tasg fideo / Video task

Cywir neu anghywir? Rhowch dic (✓) neu groes (✗) ar ôl y brawddegau hyn.

Right or wrong? Put a tick (✓) or a cross (✗) after these sentences.

Mae James a Sara yn mynd i gael Nadolig tawel.
Byddan nhw'n mynd i dŷ Anna, chwaer Sara.
Dyw James ddim yn edrych ymlaen at ddiwrnod cyfan gyda'r teulu.
Dyn mwya diflas Cymru yw Phil.
Mae plant Phil ac Anna yn dda iawn.
Bydd James yn cael peint gyda Kelvin.

Sgript Sain - Audio Script

- Bethan:** Wyt ti eisiau gweld lluniau priodas Elen a Rhodri, Gwenda?
- Gwenda:** Lluniau priodas pwy?
- Bethan:** Lluniau priodas Elen, merch Huw fy mrawd, a Rhodri - Rhodri Gwyn,
- Gwenda:** O! Hyfryd, dw i wrth fy modd gyda lluniau priodas!
- Bethan:** Wel , dyma Elen, gyda ei thad, Huw! Wyt ti'n cofio Huw? Roedd e'n ffrind coleg i dy frawd di.
- Gwenda:** Wel, oedd, wrth gwrs! Pwy yw ei wraig e, te?
- Bethan:** Siwan yw ei wraig e. Mae ei theulu hi'n dod o ardal Trawsfynydd ond mae Huw a Siwan yn byw yn Aberystwyth ers blynyddoedd.
- Gwenda:** 'Dw i YN hoffi ei ffrog hi!
- Bethan:** Gwnaeth ei ffrind hi'r ffrog.
- Gwenda:** Pwy yw'r morynion?
- Bethan:** Gwenan, ei chyfnither hi, yw'r un fawr ac Ela ei nith e, yw'r forwyn fach.
- Gwenda:** Dw i'n hoffi lliw eu ffrogiau nhw. Pwy yw'r gwas?
- Bethan:** Stuart, ffrind Rhodri. Mae ei deulu fe'n dod o'r Alban. Roedden nhw'n ffrindiau coleg.
- Gwenda:** O, mae mam y briodferch yn edrych yn smart! A'r het! Wow! Ond dw i ddim wedi gweld dy lun di eto Bethan.
- Bethan:** Dyma ni!
- Gwenda:** O! Rwyd ti'n edrych yn hyfryd hefyd. Ble roedd y gwasanaeth?
- Bethan:** Mewn eglwys fach wrth ei chartref hi. Mae ei theulu hi'n mynd i'r eglwys. Mae ein teulu ni'n mynd i'r capel, wrth gwrs.
- Gwenda:** A ble roedd eu brecwast priodas nhw?
- Bethan:** Yng Ngwesty'r Arth. Bwyd bendigedig.
- Gwenda:** O. Ble bydd eu cartref nhw?
- Bethan:** Yn Radur. Mae'n agos at ei waith e gyda'r BBC a'i gwaith hi yn Ysgol Gynradd Coed y Gof!

Geirfa

morynion - *bridesmaids*

cyfnither - *female cousin*

nith - *niece*

gwas - *best man*

priodferch - *bride*

gwasanaeth - *service*

Sgript Fideo - Video Script

ARWYN: Sut mae James. Peint bach?

JAMES: Pam lai! Dw i angen peint.

ARWYN: Beth sy'n bod?

JAMES: Mae Sara wedi penderfynu bod ni'n mynd i gael Nadolig teuluol.

ARWYN: Yn eich tŷ chi?

JAMES: Na. Yn nhŷ ei chwaer hi, Anna.

ARWYN: Rhywun arall i wneud y cinio. Braf iawn.

JAMES: Treulio diwrnod cyfan gyda'r teulu i gyd? Ddim mor braf.

ARWYN: Pwy fydd yno i gyd?

JAMES: Fy chwaer yng nghyfraith i.

ARWYN: Anna?

JAMES: Ie. Anna, a'i gŵr hi Phil. Dyn mwyaf diflas Cymru.

ARWYN: O diar.

JAMES: Eu plant nhw sef Osian a Cadi.

ARWYN: Bydd hwyl i gael gyda'r plant a'u teganau. Xbox, Wii ...

JAMES: Maen nhw'n blant swnllyd a digywilydd. Fel Olwen, fy mam-yng-nghyfraith i.

ARWYN: Bydd hi'n hwyl ar ôl sherry neu ddau.

JAMES: Na fydd. Gobeithio bydd Kelvin, ei gŵr hi, yn edrych ar ôl ei wraig e!

ARWYN: Gei di beint gyda Kelvin?

JAMES: Gwell na hynny. Ca i wisgi da gyda Kelvin! Caiff Sara ein gyrru ni adre yn ei char hi.

ARWYN: Mae eich diwrnod Nadolig chi yn mynd i fod yn lot o hwyl!

JAMES: Hy! Mae'r teulu yn siwr o ddifetha ein Nadolig ni! Nawr te, peint arall.

Geirfa

penderfynu - *(to) decide*

treulio - *(to) spend*

cyfan - *whole*

yng nghyfraith - *in law*

teganau - *toys*

digywilydd - *rude*

difetha - *(to) ruin*

Atebion - Answers

Tasg sain / Audio task

Elen: Huw yw fy nhad i.
Rhodri yw fy ngŵr i.
Gwenan yw fy nghyfnither i.
Gwenan ac Ela oedd fy morynion i.
Bydd fy nghartref i yn Radur.
Bydd fy ngwaith i yn Ysgol Gynradd Coed y Gof.

Rhodri: Elen yw fy ngwraig i
Ella yw fy nith i
Stuart yw fy ffrind/ngwas i

Tasg fideo / Video task

Mae James a Sara yn mynd i gael Nadolig tawel. x
Byddan nhw'n mynd i dŷ Anna, chwaer Sara. ✓
Dyw James ddim yn edrych ymlaen at ddiwrnod cyfan gyda'r teulu i gyd. ✓
Dyn mwy diflas Cymru yw Phil. ✓
Mae plant Phil ac Anna yn dda iawn. x
Bydd James yn cael peint gyda Kelvin. x